Policy:	School Uniform
Responsibility:	Full GB
Headteacher's recommendation to the Governing Body:	*Headteacher recommends adopting this policy.*
Adopted:	02/03/17
Review:	Every three years, as dated below:

Polisi Gwisg Ysgol

Anogir ein disgyblion i wisgo gwisg ysgol yn ddyddiol. Hefyd anogir iddynt wisgo eu gwisg ysgol wrth gynrychioli'r ysgol mewn gweithgareddau a drefnwyd gan yr ysgol tu fas i oriau ysgol. Darperir rhestr lawn o'r wisg ym mhrosbectws yr ysgol.

Nodau ac Amcanion
Gweithredir ar y syniad bod gwisg ysgol yn:

- hyrwyddo balchder yn yr ysgol
- peri'r synnwyr o berthyn i gymuned yr ysgol
- ymarferol ac yn smart
- osgoi'r temtasiwn i wisgo dillad ffasiynol a all fod yn wrthdyniad yn y dosbarth
- sicrhau bod pob plentyn yn teimlo'n gyfartal o ran ei olwg
- addas i'r ysgol a gwerth da am arian yn ôl barn y mwyafrif o rieni
- wedi'i chynllunio gydag iechyd a diogelwch dan sylw

Gemwaith
Am resymau iechyd a diogelwch, ni chaniateir gwisgo gemwaith yn yr ysgol ac eithrio un par o glustlysau bach (studs) ac oriawr. Hefyd rhoddir caniatâd (trwy gais i'r Corff Llywodraethol) pan wisgir y gemwaith am resymau crefyddol, diwylliannol neu feddygol. Gofynnir i'r disgyblion dynnu'r eitemau yma ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol er mwyn osgoi damweiniau neu niwed i blant eraill.

Gwallt
Ni chaniateir y plant i wisgo eu gwallt wedi'i dorri neu'i liwio yn eithriadol. Disgwylir iddynt glymu eu gwallt hir yn ol er mwyn osgoi damweiniau.

Esgidiau
Dymuniad yr ysgol yw bod pob plentyn yn tyfu i fod yn oedolyn iachus. Credwn ei fod yn beryglus i'r plant wisgo sodlau uchel neu esgidiau ymarfer corff trwy'r dydd, felly anogir iddynt wisgo esgidiau gwastad. Disgwylir iddynt newid i mewn i esgidiau ymarfer corff ar gyfer gwersi allanol Addysg Gorfforol. Bydd plant yn cymryd rhan mewn sesiynau addysg gorfforol yn y neuadd yn droed noeth.

Rôl y Rhieni
Gofynnwn am gefnogaeth pob rhiant wrth ddarparu'r wisg briodol. Credwn fod cyfrifoldeb gan ein rhieni i ddanfon eu plant at yr ysgol wedi'u gwisgo'n addas ac yn barod i wynebu gwaith y diwrnod mewn dillad glân a thaclus.
Os yr hoffai unrhyw riant addasu polisi'r ysgol i gwrdd ag anghenion unigol ei blentyn, gofynnwn iddynt gysylltu â'r Pennaeth yn y lle cyntaf. Croesawir plant o bob cefndir a chymuned yn ein hysgol. Os oes rhesymau difrifol gan riant i wisgo ei blentyn yn wahanol i'r polisi yma (er enghraifft am resymau crefyddol, diwylliannol neu feddygol), ystyrier pob cais yn unigol gan y Llywodraethwyr.

Rôl Y Llywodraethwyr
Mae'r Corff Llywodraethol yr ysgol yn cefnogi'r Pennaeth wrth weithredu'r polisi hwn. Ystyrir pob sylw gan rieni am y polisi mewn modd sensitif a theg. Cyfrifoldeb y Llywodraethwyr yw hi i sicrhau bod y wisg ysgol ddewisedig yn cwrdd â rheoliadau cyfleoedd cyfartal.

Monitro ac Adolygu
Os daw cynnig i addasu'r wisg yn llwyr, yna rhaid gynnal ymgynhoriad rhwng y staff, Llywodraethwyr, rhieni a Chyngor yr Ysgol cyn dod i benderfyniad. Rhoddir tymor o rybudd am y penderfyniad terfynol a bydd cyfnod o hyblygrwydd wrth drosglwyddo i'r wisg newydd. Cyfrifoldeb y Llywodraethwyr yw sicrhau'r broses hon yn cael ei gweithredu'n gywir.

School Uniform Policy

Our children are encouraged to wear school uniform daily. They are also encouraged to wear their uniform when representing the school in activities organised by the school outside school hours. A full list of our uniform is provided in the school prospectus.

Aims and objectives
We operate on the idea that school uniform:

- promotes pride in the school
- promotes a feeling of belonging
- is practical and smart
- removes the temptation of wearing fashionable clothes that could cause a distraction in class
- ensures that each child feels equal in relation to their appearance
- is suitable for the school and provides good value for money according to a majority of parents
- is designed with health and safety in mind

Jewellery
For health and safety reasons, wearing jewellery is not allowed, with the exception of one small pair of studs and a watch. Permission may also be granted (through an application to the Governing Body) to wear jewellery for religious, cultural or medical reasons. Pupils are asked to remove these items for Physical Education session in order to minimise the risk of accidents for themselves or others.

Hair
Children are not permitted to wear, cut or colour their hair in an extreme fashion. They are expected to tie long hair back in order to minimise the risk of accidents.

Shoes
It is the school's desire to see each child grow to become a fit and healthy adult. We believe that it is dangerous for children wo wear shoes with high heels or trainers all day, and encourage the wearing of flat shoes with good support. Sports shoes will be required for Physical Education lessons held outdoors. Children will take part in physical education lessons held in the school hall in bare feet.

Role of Parents
We ask for the support of every parent in providing a suitable school uniform. We believe that parents have a duty to send children to school dressed suitably and ready to face the day's work wearing clean and tidy clothes. If any parent wishes to adapt the school's uniform to adapt their child's individual needs, they are asked to contact the Headteacher in the first instance. Children from all backgrounds and communities are welcome in our school. If parents have a serious reason for dressing their child differently to this policy (for example for religious, cultural or medical reasons), each individual case will be considered by the Governing Body.
gan y Llywodraethwyr.

Role of Governors
The Governing Body of the school supports the Headteacher in the implementation of this policy. All comments from parents regarding the policy will be considered in a fair and sensitive manner. It is the Governors' responsibility to ensure that the chosen uniform complies with equal opportunity duties.

Monitoring and Revising
If a proposal to change the uniform in its entirety is made, then it is necessary to hold a consultation between staff, Governors, parents, and the School Council before coming to a decision. A term of notice will be provided with regards to a final decision to change, and a period of flexibility will follow. It is the Governors' responsibility to ensure that this process is followed correctly.